# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Plas Gogerddan**

**Meithrinfa Plas Gogerddan**
**Gogerddan**
**Aberystwyth**
**SY23 3EE**

**This report is also available in English**

**Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

13/7/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Meithrinfa Plas Gogerddan

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Gogerddan Childcare Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 54 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 28 Awst 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

Am fwy o wybodaeth ar sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae gan y plant lais cryf iawn ac maent yn cyfathrebu'n hyderus gyda'i gilydd a gyda'r staff gofal. Maent yn datblygu cydberthnasau cryf ac maent yn mynegi eu barn yn agored, gan wybod y gwrandewir arnynt. Mae'r plant yn hynod hapus ac yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau pwrpasol yn annibynnol.

Mae'r staff gofal yn deall ac yn gweithredu polisïau'n gyson ac yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a diogelwch personol y plant er mwyn sicrhau eu llesiant yn llwyddiannus. Mae'r staff yn wybodus, yn garedig ac yn ofalgar ac yn gwbl ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant. Maent yn cynllunio a hyrwyddo eu hathroniaeth addysgeg yn effeithiol i ddatblygu diddordebau a chwilfrydedd y plant yn llwyddiannus.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau rhagorol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, o dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn sicrhau bod gan y plant fynediad at ystod eang a chyffrous o adnoddau ac offer naturiol a phwrpasol i feithrin sgiliau datblygiadol cyffredinol y plant. Maent yn cynnig cyfleoedd gwych i chwarae a dysgu mewn amrywiaeth o fannau awyr agored.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n gyson â'r holl reoliadau perthnasol ac yn rhagori ar y safonau cenedlaethol gofynnol. Mae ganddynt weledigaeth gref ar gyfer y dyfodol ac maent yn sicrhau bod y staff yn cael cyfleoedd parhaus i ddatblygu'n broffesiynol. Maent yn angerddol am sicrhau eu bod yn cynnig gofal o safon uchel iawn i'r plant yn eu gofal. Maent wedi datblygu partneriaethau cryf ar draws y gymuned ac yn genedlaethol.

| **Llesiant** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae gan y plant lais cryf iawn a chaiff eu barn a'u diddordebau eu gwerthfawrogi'n fawr a gweithredir arnynt. Roedd plentyn wrth ei fodd pan ymatebodd aelod o staff i'w sylw ei bod yn hoffi chwarae â dŵr trwy ddod â photeli chwistrellu a chaniau dŵr. Ar achlysur arall, dywedodd un plentyn nad oedd yn hoffi cael dwylo mwdlyd ac roedd yr aelod o staff yn parchu hyn trwy olchi ei ddwylo'n ysgafn. Yn ystod amser byrbryd, roedd y plant yn cael y dewis o ble yr hoffent eistedd ac yn dewis eu seddi'n hyderus. Mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau megis dewis lliwiau a brwshys ac arwynebau o wahanol faint yn ystod gweithgaredd paentio.

Mae'r plant yn hynod hapus ac yn ymgysylltu'n llawn, ac mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn. Maent wedi ffurfio perthynas agos â'u cyfoedion a'u gofalwyr ac maent yn gyfarwydd â'r holl arferion. Mae eu teimladau a'u hanghenion yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi a gwelsom rwymau cryf iawn o anwyldeb ac ymlyniad. Er enghraifft, cafodd un plentyn ei gofleidio pan aeth ychydig yn ddagreuol yn ystod amser byrbryd a chafodd ei anghenion eu cydnabod a'u cefnogi mewn ffordd dyner a gofalgar. Yn yr awyr agored, gwelsom sut roedd y babanod yn chwarae'n annibynnol, ond yna aethant at y staff am gysur a chofleidiadau. Gwnaethant eistedd yn gyfforddus ar liniau'r staff cyn mynd i ffwrdd yn hapus i archwilio eto, gan roi tystiolaeth o gysylltiadau agos rhwng y plant a'r staff.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn ysgogol yn gyson ac mae'r plant yn cydweithio mewn modd brwdfrydig. Mae'r plant yn mynegi empathi a gofal tuag at ei gilydd ac yn gwrando'n ofalus, gan ymateb a chyfathrebu gydag anwyldeb. Maent yn ymgysylltu'n llawn ac yn dangos parch at eraill ac at y lleoliad. Gwelsom grŵp o blant yn chwarae â sosbenni a chwpanau, yn llenwi'r rhain â phridd a cherrig ac yn helpu ei gilydd, ac fe wnaethom glywed llawer o eiriau fel ‘Beth hoffet ti?’ a ‘Diolch’ pan oedd adnoddau'n cael eu rhannu.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu yn fawr ac yn cael eu trwytho yn y cyfleoedd cyffrous sydd ar gael iddynt. Mae'r holl blant, gan gynnwys y babanod, yn mwynhau chwarae dŵr a'r byd naturiol. Bu'r plant hŷn yn archwilio blodau gwyllt, gan ymateb fel a ganlyn: ‘Edrychwch ar y pabi yna … ac un arall yno … dyna flodyn gwahanol.’ Mae’r plant yn arddangos sgiliau corfforol rhagorol trwy reoli gwahanol raddiannau a llethrau yn yr awyr agored. Maent yn profi ystod eang o gyfleoedd dysgu sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol yn llawn wrth iddynt ddilyn eu greddfau, eu syniadau a'u diddordebau eu hunain. Maent yn annibynnol a gwelsom nhw yn golchi a sychu eu dwylo yn gymwys yn yr unedau sinc symudol yn yr awyr agored.  Mae'r plant yn datrys problemau yn llwyddiannus ac yn cael eu cefnogi wrth wneud penderfyniadau. Er enghraifft, gwelsom un plentyn yn pwyso ysgol bren yn erbyn ffens er mwyn iddo allu dringo i weld y blodau uwch. O dan oruchwyliaeth agos aelod o staff, roedd yn gwbl annibynnol yn ei allu i fod yn chwilfrydig ac archwilio ymhellach. Mae'r plant yn teimlo hunan-barch a balchder mawr o ganlyniad i'w llwyddiant mewn chwarae a darganfod.

## Gofal a Datblygiad — Rhagorol

Mae'r staff gofal yn deall ac yn gweithredu polisïau yn gyson ac yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a diogelwch personol y plant er mwyn sicrhau eu llesiant yn llwyddiannus. Mae'r staff yn rhagweithiol ac yn rheoli unrhyw risgiau yn effeithiol wrth iddynt godi. Gwelsom sut roedd y staff gofal yn ymateb yn gyflym ac yn gwirio’r plant mewn modd digynnwrf a charedig os oeddent yn cwympo. Mae'r staff gofal yn siarad yn barchus â'r plant ac yn dangos diddordeb, pleser a gofal ym mhopeth y maent yn ei wneud. Maent yn rheoli unrhyw arwydd o wrthdaro posibl, er enghraifft ynghylch rhannu, yn ofalus ac yn gyflym ac yn cynnig cymorth a gofal.

Mae'r staff gofal yn parchu teimladau'r plant, er enghraifft trwy ofyn iddynt a allant roi eli haul arnynt, a gwelsom fod y plant yn gyfforddus â'r drefn hon.  Mae'r staff gofal yn dilyn prosesau effeithiol i gadw'r plant yn ddiogel yn yr haul, er enghraifft trwy eu cadw wedi'u hydradu a sicrhau mynediad parhaus at ddŵr y tu mewn a thu allan yn y cysgod. Mae'r staff yn adnabod y plant yn arbennig o dda ac maent i gyd yn gallu rhoi enghreifftiau o sut y maent wedi datblygu a  beth yw eu hanghenion. Maent yn ymateb yn brydlon i anghenion unigol y plant a gallant adnabod ac ymateb pan fydd arnynt eisiau cysgu. Gwelsom arferion effeithiol iawn, lle mae babanod sy'n cysgu yn cael eu gwirio â larwm bob deg munud, gyda'r gwiriadau hyn yn cael eu dogfennu ar y cofnod cysgu dyddiol yn yr ystafell gysgu. Mae'r staff gofal i gyd yn hyderus wrth drin senarios diogelu a gallant egluro beth fyddent yn ei wneud pe bai ganddynt bryderon. Mae amseroedd cinio yn dawel ac yn drefnus ac mae'r staff gofal yn sicrhau bod prydau bwyd yn cael eu gweini â gofal a bod y plant yn cael eu goruchwylio bob amser ac nad ydynt yn cael eu rhuthro. Caiff clytiau eu newid gydag urddas, gofal a pharch ac mae'r staff gofal yn dilyn yr holl fesurau diogelwch yn ddiwyd. Maent yn ymarfer gweithdrefnau diogelwch eraill fel ymarferion tân yn rheolaidd, a gwnaethom nodi eu bod wedi cynyddu'r arferion yn dilyn sylw gan blant nad oeddent yn siŵr beth oedd yn digwydd.

Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a thuag at y plant bob amser yn barchus. Mae'r staff yn ymatebol yn gyson ac yn parchu barn y plant. Mae'r rhyngweithio'n gadarnhaol iawn, ac mae'r staff yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Maent yn sensitif i anghenion y plant ac yn achub ar bob cyfle i gyfoethogi'r rhyngweithio trwy ymatebion gofalus, iaith lafar gywir a chyfoethogi geirfa'r plant. Gwelsom y plant yn mynd at y staff i gael sicrwydd, a chlywsom sgyrsiau ar ddiwedd sesiynau'r bore rhwng y staff gofal a rhieni a neiniau a theidiau lle roeddent yn cymryd eu hamser i roi adborth. Roedd tystiolaeth glir o barch rhwng y staff a'r teuluoedd.

Mae gan y staff ddealltwriaeth gyfoethog o faterion amrywiaeth ac maent yn hyrwyddo hawliau'r plant yn llawn ac maent wedi ymrwymo i ddarparu ystod ragorol o weithgareddau a chyfleoedd chwarae a dysgu. Maent yn gwbl ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant ac yn darparu gweithgareddau sy'n briodol i oedran a chyfnodau penodol.  Mae'r staff yn ystyried ac yn adolygu'r broses gynllunio a'r camau nesaf yn gyson ac yn ofalus. Mae gan y plant ag anghenion ychwanegol gynlluniau gofal sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ac sy'n

ddealladwy i weithwyr allweddol. Gwelsom fyrddau cynllunio gyda syniadau'r plant ac esboniodd y staff gofal sut y maent yn ymateb i ddiddordebau a chwilfrydedd y plant gyda gweithgareddau pellach i gyfoethogi eu profiadau dysgu.  Er enghraifft, dewisodd y plant stori ‘Y Tri Mochyn Bach’ a chafodd hon ei chreu a’i hactio yn ardal yr ysgol goedwig gerllaw, lle gwelsom y tai o ffyn a brics. Roedd y gweithgaredd gwych hwn wedi bod o fudd mawr i sgiliau dychmygus, creadigol a chorfforol y plant.  Mae datblygiad a dysgu'r plant yn cael eu dogfennu mewn proffiliau dysgu antur unigol sy'n cael eu creu trwy feddalwedd Capture ac sy'n gysylltiedig â meysydd datblygiad o fewn y cwricwlwm. Mae'r staff yn wybodus am ddatblygiad plant a'r cwricwlwm ac yn cyflwyno eu profiadau eu hunain mewn lleoliadau ysgol goedwig yn y Ffindir, gan weithredu agweddau ar yr arferion hyn yn y lleoliad.

| Yr Amgylchedd | Rhagorol |
| --- | --- |

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod cyfres gynhwysfawr ac effeithiol o fesurau a pholisïau ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau yn llawn. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn sicr ac mae wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn cwblhau asesiadau risg manwl lle caiff risgiau a pheryglon eu hystyried a'u monitro'n ofalus ym mhob agwedd ar chwarae a gweithgareddau'r plant. Maent yn cwblhau ac yn adolygu asesiadau risg tân ac yn cyfleu gweithdrefnau mewn argyfwng yn glir i'r holl bobl berthnasol. Gwelsom arferion hylendid cyson ac effeithiol a oedd yn lleihau risgiau i iechyd a diogelwch pawb. Mae'r staff yn gweithredu'r gatiau yn yr awyr agored, gan wahanu grwpiau gwahanol yn effeithiol, a dywedasant wrthym sut y maent yn goruchwylio'r plant ac yn cynnal ymarferion cyfrif pennau rheolaidd yn erbyn y cofrestrau dyddiol. Gwelsom ardal newydd ei hadnewyddu gyda chysgodfan fawr yn cynnig man awyr agored diogel pellach o ansawdd uchel lle mae'r holl fesurau diogelwch wedi'u hystyried yn ofalus.

Mae'r lleoliad yn ddiogel ac yn groesawgar ac mae'n cael ei gynnal a'i gadw'n rhagorol. Mae’r tu fewn yn lân, yn agored, wedi’i oleuo’n dda ac yn lled oer, gan gynnig llawer o wahanol fannau chwarae, ac mae pob ardal yn cynnig cyfleoedd pwrpasol ar gyfer profiadau dysgu cyfoethog. Gall y plant gael mynediad hawdd at ddodrefn maint plant o ansawdd uchel ac mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi ymrwymo i ddarparu adnoddau ysgogol sy'n hybu chwilfrydedd y plant, dan do ac yn yr awyr agored, ac sy'n ysgogi diddordebau a dychymyg y plant. Hyrwyddir cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol ar draws y practis. Mae'r man awyr agored mawr y tu ôl i'r lleoliad yn ddiogel ac yn darparu cyfleoedd rhagorol ar gyfer cyfleoedd dysgu helaeth gydag ardaloedd cysgodol yn ogystal â llethrau a grisiau i'r plant ddatblygu ymwybyddiaeth ofodol a datblygiad corfforol ymhellach. Mae'r lleoliad wedi creu ysgol goedwig hyfryd a chyffrous mewn ardal goetir, taith gerdded fer o'r lleoliad. Ceir mynediad iddi trwy giât sy’n agor at ofod mawr, cysgodol sy’n cynnig amgylchedd dysgu cyfoethog a chyffrous o guddfannau, llochesi, adeiladwaith a thoiled compost caeedig pwrpasol lle mae pob agwedd ar ddiogelwch wedi’u hystyried yn ofalus ac yn cael eu monitro’n rheolaidd. Mae'r lleoliad hefyd wedi cael ei adnewyddu'n ddiweddar, gan gynnwys lloriau newydd a newidiadau i ofodau dan do, ac mae cynlluniau pellach ar gyfer newidiadau yn y dyfodol i gysylltu ystafelloedd dan do â'r awyr agored. Mae gan y plant fynediad at amgylchedd diogel, ysgogol a hyfryd dan do ac yn yr awyr agored.

Dewisir adnoddau yn bwrpasol ac maent bron i gyd yn naturiol ac yn bren. Mae llawer o’r adnoddau'n cael eu dewis yn arbennig o siopau elusen i ddarparu profiadau bywyd go iawn i'r plant, fel jygiau, caniau a chyfarpar. Mae'r ystod o feiciau a threiciau yn yr ardaloedd allanol yn cynnig cyfleoedd pellach ar gyfer datblygiad ac maent yn cael eu storio mewn modd sy'n annog annibyniaeth a dysgu pellach. Mae cypyrddau storio a osodwyd yn ddiweddar yn storio adnoddau mewn modd sy'n caniatáu digon o arwynebedd llawr i'r plant. Mae'r adnoddau ychwanegol sydd wedi'u storio yn cael eu gosod allan i ddilyn diddordebau'r plant. Yn y Caban Gwyrdd yn yr awyr agored, gall y plant gael mynediad at adnoddau naturiol eu hunain sy'n adlewyrchu ansawdd a phriodoldeb eu profiadau chwarae. Mae partneriaethau wedi'u hadeiladu dros amser, gan arwain at adeiladu

adnoddau a chyfarpar pellach – er enghraifft, arwynebau meddal newydd, cwch a grëwyd gan aelod o staff, a meinciau a byrddau a wnaed gan sefydliadau allanol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Rhagorol**

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth arloesol a rennir gyda'r tîm. Mae'r holl bolisïau, gweithdrefnau a dogfennau ar waith ac yn cael eu storio'n gyfrinachol. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir ac yn rhagori ar y safonau gofynnol cenedlaethol. Maent yn adolygu dogfennaeth yn rheolaidd, neu o leiaf yn flynyddol, ac mae dyddiadau a llofnodion yn amlwg. Mae'r holl systemau cofnodi eraill wedi'u cwblhau ac yn drefnus. Mae alergeddau'r plant, yn ogystal ag anghenion unigol, yn cael eu dogfennu'n ofalus ym mhob un o'r ystafelloedd a'u monitro'n ofalus. Mae'r cyfnod sefydlu yn drylwyr ac yn ystyrlon a gwnaethom nodi'n arbennig eu bod wedi cynnal sesiynau sefydlu ychwanegol ar gyfer y gwahanol ystafelloedd ac yn cynnwys gwaith staff banc ar draws ystafelloedd. Roedd hyn wedi'i ddogfennu'n glir yn ffeiliau'r staff.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ffeil ansawdd gofal sy'n cael ei threfnu'n ofalus. Mae hon yn cynnwys gwelliannau i'r lleoliad yn ogystal â chanlyniadau arolygon ac adborth gan y rhieni a'r staff. Gwelsom sut mae'r arweinwyr a'r staff gofal yn ymateb i fentrau neu ddigwyddiadau newydd mewn lleoliadau gofal plant eraill ac yn rhoi mesurau pellach ar waith i sicrhau diogelwch a chyfleoedd dysgu. Gwelsom athroniaeth addysgeg newydd y lleoliad, lle mae'r arweinwyr yn dangos sut mae pawb yn y lleoliad wedi cyfrannu at yr ethos a'r syniadau y tu ôl i'w egwyddorion a'i werthoedd. Mae hyn yn dangos lefel y balchder sydd gan yr arweinwyr a'r staff gofal am y broses barhaus o wella'r gwasanaeth i brofiadau dysgu'r plant ifanc. Mae arferion arfarnu a goruchwylio staff effeithiol yn galluogi'r staff i ddatblygu'n broffesiynol ar daith barhaus ac mae hyfforddiant staff yn cynnwys diogelu, awtistiaeth, trafodaethau ar y cwricwlwm, ysgolion coedwig a rhannau rhydd. Mae'r staff wedi cwblhau gwaith chwarae yn ddiweddar ac yn bwriadu mynychu hyfforddiant ysgol goedwig pellach. Mae'r lleoliad wedi ennill gwobr genedlaethol yn ddiweddar am ei arferion rhagorol. Dywedodd y staff wrthym faint yr oeddent yn mwynhau gweithio yn y lleoliad ac roedd eu balchder a'u brwdfrydedd yn amlwg.

Hyrwyddir arferion gorau cyfredol yn effeithiol a dirprwyir cyfrifoldebau ychwanegol, megis sesiynau goruchwylio, rotâu, hyfforddiant sefydlu, ac archebu bwyd gan gwmni arlwyo allanol, yn effeithiol ymhlith y staff gofal. Yn ogystal â chyfarfodydd staff, mae bwletinau staff manwl yn effeithiol wrth sicrhau bod newyddion, datblygiadau a llwyddiannau yn cael eu rhannu'n ofalus.

Mae partneriaethau cryf wedi'u datblygu dros nifer o flynyddoedd gyda chymdogion ar y safle, yn ogystal ag ysgolion, athrawon, penaethiaid a sefydliadau cenedlaethol. Gwelsom y 'polisi ymgartrefu' ar waith lle'r oedd rhiant newydd yn arsylwi o bell. Gwnaethom siarad â rhieni a ddywedodd na fyddent byth yn rhoi eu plant yn unman arall a'u bod mor falch o'r

gofal y mae eu plant yn ei gael. Dywedodd pob rhiant fod eu plant yn hapus. Dywedodd rhieni eu bod wedi dewis Gogerddan oherwydd y cyfleusterau awyr agored ac ethos ardderchog. Mae hwn yn wasanaeth sydd wedi ymrwymo i wella gyda llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arferion ac arloesedd sy'n arwain y sector. Mae'r gofal a ddarperir o ansawdd uchel ac yn dangos cyfraniad cryf at wella llesiant a datblygiad y plant.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Nid oes unrhyw argymhellion.

| Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

**Maes/Meysydd i'w Gwella**

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy’n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy’n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel, ac maent yn gallu dangos eu bod yn gwneud cyfraniad cryf i wella lles plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau ac sydd heb unrhyw feysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r plant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae eu cryfderau'n gorbwyso eu meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni gofynion sylfaenol, ond mae angen gwelliannau i hybu llesiant a gwella canlyniadau i'r plant. |
| **Gwael** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau, a lle mae  enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n cael effaith negyddol ar les y plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 26/10/2022